COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD LLUN, 25 MEDI 2023 10:00

Presennol

| | | |
|---|---|---|
| H T Bennett | H Griffiths | RM James |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Gyfreithiwr |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Cymorth |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Diana Freeman | Rheolwr Cydymffurfio – Amber Taverns |
| Alex Marchant | Rheolwr Ardal – Amber Taverns |
| Y Cynghorydd David Unwin | Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr |
| David Easterbrook | Busnes yn erbyn Troseddu Pen-y-bont ar Ogwr |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Penodi Cadeirydd |
| Y penderfyniad a wnaed | Cynigiodd a chytunodd yr Aelodau i benodi'r Cynghorydd Heidi Bennett yn Gadeirydd Is-bwyllgor B Deddf Drwyddedu 2003 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2023 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Datganiadau o fuddiant |
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2023 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cais am Drwydded Safle Newydd ar gyfer 11-13 Caroline Street, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1DN |
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynodd Is-bwyllgor B Deddf Drwyddedu 2003 ganiatáu'r Drwydded yn amodol ar yr amrywiadau y cytunwyd arnynt gyda'r Heddlu fel a ganlyn:-<br><br>"Cyffredinol<br>Bydd gwerthu alcohol yn cychwyn am 10:00 o'r gloch<br>Os bydd unrhyw ddigwyddiad chwaraeon rhyngwladol cydnabyddedig yn cael ei ddarlledu ar y teledu, megis Cwpan Rygbi'r Byd, Cwpan y Byd FIFA, Teithiau Llewod Prydain ac Iwerddon, ac yn y blaen, sydd y tu allan i'r oriau a ganiateir ar hyn o bryd ar y Drwydded Safle, caniateir cychwyn gwerthu alcohol awr cyn yr amser gwerthu alcohol presennol. Dylid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a Heddlu De Cymru yn electronig am fanylion y digwyddiad o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw.<br><br>Nid yw Digwyddiadau Bocsio ar y Teledu yn dod o dan yr amod hon.<br>Bydd o leiaf un deiliad trwydded bersonol ar gael tra bydd alcohol yn cael ei gyflenwi neu ei werthu yn ystod gweithgareddau o'r fath. |

| | |
|---|---|
| | <u>Trosedd ac Anhrefn</u><br>Rhaid cyflogi o leiaf 2 Oruchwyliwr Drws yn yr eiddo ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn, dydd Sul cyn Gŵyl y Banc a phob diwrnod o dan Amrywiadau Tymhorol o 21:00 tan yr amser cau.<br>Yn ôl disgresiwn Heddlu De Cymru, lle rhoddir 7 diwrnod o rybudd, ar ddiwrnodau a ystyrir yn ddigwyddiadau chwaraeon mawr, megis Gemau Rygbi Rhyngwladol y 6 Gwlad, Gemau Rhyngwladol yr Hydref, Cwpan Rygbi'r Byd, Rygbi'r Llewod Prydeinig, Cwpan Pêl-droed y Byd, Pencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd, caiff pob diod ei thywallt i gynwysyddion di-wydr neu blastig / polycarbonad. Yr eithriad i hyn yw pan fydd pobl yn eistedd yn bwyta pryd o fwyd sylweddol, te neu goffi.” |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2023 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |